

Wrth gefnogi *gofalwyr*

Adroddiad trosolwg o
ymgysylltiad gofalwyr

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Rhagair | 4 |
| Crynodeb | 5 |
| Cefndir | 5 |
| Pam gofalwyr? | 6 |
| Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel y mae'n berthnasol i ofalwyr | 6 |
| Beth wnaethom ni | 7 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Casgliad a'r camau nesaf | 14 |

Rhagair

Gan Sheila Meadows, aelod o Fwrdd Cynghori Cenedlaethol AGGCC a Chadeirydd Ein Llais Gogledd

Bydd y rhan fwyaf o bobl rywbryd yn eu bywydau yn dod yn ofalwr i aelod o'r teulu, nid yw'n rhywbeth y byddwn ni'n cynllunio ar ei gyfer neu'n rôl rydyn ni ei heisiau'n weithredol, ond rydyn ni'n dod yn ofalwr oherwydd ein bod yn caru'r person ac eisiau eu helpu cymaint ag y gallwn. Yn ystod fy oes mae cymdeithas wedi newid yn aruthrol ac mae teuluoedd yn aml yn llai a mwy gwasgaredig, mae'r boblogaeth yn heneiddio a gyda'r rhan fwyaf o fenywod yn cymryd y swydd ofalu, pan ddaw, gall achosi brwydr go iawn i nifer o deuluoedd.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (SSWBA) yn cydnabod y pwysau mae gofalu'n ei roi ar unigolion a theuluoedd a gobeithio ei fod wedi dechrau newid cymdeithasol i gydnabod cyfraniad economaidd hollbwysig gofalmwyr teuluol a rhoi pwysau ar Awdurdodau Lleol i ystyried a diwallu eu hanghenion, nid fel ôl-ystyriaeth ond fel hawl. Mae'n bwysig iawn bod yr aelodau etholedig mewn awdurdodau lleol yn cyflawni eu rôl o ran cynnal ysbryd y ddeddf hon, gan drin gofalmwyr fel partneriaid cyfartal yn y rôl maen nhw'n ymgymryd â hi a sicrhau bod gwybodaeth a chymorth ar gael iddynt fel hawl, nid yn unig pan fydd teulu mewn argyfwng sydd yn draddodiadol wedi bod yn wir.

Fel rhiant i fab anabl iawn rwyf wedi bod yn ofalwr am nifer o flynyddoedd a byddaf yn parhau i ofalu am weddill fy mywyd. Rwyf wedi gofalu am rieni oedrannus, ac aelodau eraill oedrannus o'r teulu tan eu marwolaeth. Nid wyf yn sant, cymerais y rôl fel mae'n digwydd, ond wrth i mi gyrraedd oedran ymddeol, cefais fy ngorfodi i chwilio am gefnogaeth ar gyfer fy mab sydd angen mwy o symbyliad a gofal na'r hyn roeddwn i'n gallu eu cynnig am nad oedd gen i ddigon o egni. Ond pam, ddeng mlynedd wedyn, mod i'n dal i deimlo'n euog am orfod cymryd y cam hwnnw, gorfod cyfaddef nad oeddwn i'n ymdopi bellach fel ag yr oeddwn cyn hynny.

Gobeithio bydd y SSWBA yn cefnogi gofalmwyr yn gynharach, yn gwneud beth sy'n iawn i bobl sydd angen mwy o ofal a chymorth nag y gall aelod o'r teulu eu rhoi. Mae angen i ofalmwyr deimlo'n ddiogel wrth rannu gofal aelod o'u teulu, mae angen dull partneriaeth sy'n sicrhau fod y canlyniad gorau posibl mewn bywyd yn cael ei gyflawni ar gyfer y rhai sy'n derbyn gofal, a thrwy hynny, rhoi'r cyfle i mi a nifer fel fi i fod yn Fam neu'n Nain neu'n ferch wirioneddol.

Yn fy rôl fel Chadeirydd grŵp Gogledd Cymru Ein Llais, byddaf yn codi'r cwestiwn lawer gwaith "Ydy gofalmwyr yn cael y cymorth maen nhw'n ei haeddu? Os na, pam felly?" Rhaid i arolygwyr AGGCC, drwy eu harolygiadau sicrhau nid yn unig bod y gwasanaethau mae pobl yn eu derbyn o ansawdd uchel, ond bod ethos SSWBA fel mae'n ymwneud â gofalmwyr yn cael ei gynnal. Bydd angen i AGGCC weithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a phrif swyddogion cyngor i godi proffil hawliau gofalmwyr, i sicrhau eu bod yn deall y rôl hynod anodd a gwerthfawr mae gofalmwyr yn ei darparu yn y byd heddiw ac yn eu cefnogi yn unol â'u hawl pan fyddant angen y cymorth hwnnw.

Crynodeb

- Wrth drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, nid yw cefnogaeth i ofalwyr wedi bod yn cael blaenoriaeth o ran cynllunio a chyflawni ar gyfer awdurdodau lleol a'u partneriaid.
- Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol strategaethau ar gyfer gofalwyr ar waith ond nid yw'r rhain wedi cael eu hadolygu i adlewyrchu newidiadau o dan y SSWBA.
- Ceir enghreifftiau o arfer cadarnhaol ac arloesol ledled Cymru a fyddai'n elwa o'i ledaenu yn fwy eang.
- Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau i ofalwyr yn parhau i fod yn gyllid tymor byr i raddau helaeth.
- Nid yw gofalwyr yn cael cynnig asesiad o'u hanghenion fel mater o drefn nac yn cael gwybodaeth, cyngor neu gymorth .
- Mae ystod eang o wybodaeth ar gael ond weithiau mae angen i ofalwyr fynd i sawl man i gael hyn ac nid yw hyn bob amser yn hygyrch, yn enwedig ar adegau o argyfwng.
- Rydym wedi nodi dau fath o ofalwyr lle mae'r diffyg mwyaf o ran cymorth. Y rhain oedd gofalwyr sy'n rhieni i blant gydag anghenion cymhleth a gofalwyr i oedolion gydag anghenion iechyd meddwl.

Cefndir

Yn 2016 newidiodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ei ddull o werthuso perfformiad awdurdodau lleol yng ngoleuni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (SSWBA). Roedd y newid hwn yn cynnwys mwy o ymgysylltu gyda phobl sydd ag anghenion gofal cymdeithasol a gyda'u gofalwyr. Ar gyfer 2016/17 cytunwyd y byddai gweithgarwch ymgysylltu'r AGGCC ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn canolbwyntio ar brofiad y gofalwyr. Arweiniwyd y gwaith hwn gan Reolwyr Ardal AGGCC.

Pam gofalwyr?

Yn 2015, cynhaliwyd y Cynulliad Gofalwyr cyntaf yng Nghymru¹ a bu i hyn nodi nifer o themâu gan gynnwys:

- Hawliau ac asesu.
- Darparu gwybodaethn.
- Gofal seibiant a thoriadau.
- Gwaith ac arian.

Hefyd, nododd AGGCC fod llawer o'r adroddiadau blynyddol a gynhyrchir gan gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ledled Cymru yn dweud ychydig yn unig ynghylch y cymorth ar gyfer gofalwyr. Arweiniodd hyn yr AGGCC i nodi'r angen i ddeall mwy am brofiad gofalwyr ledled Cymru.

Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel y mae'n berthnasol i ofalwyr

Mae'r SSWBA yn ehangu'r diffiniad o ofalwyr drwy ddileu'r cyfeiriad at lefelau gofalu 'rheolaidd a sylweddol' a chynyddu'r pwyslais ar atal a llesiant fel pethau pwysig i ofalwyr. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd i ymgynghori â gofalwyr cyn belled ag sy'n ymarferol yn asesiad yr unigolyn sy'n derbyn gofal ac yn rhoi cyfle i gynnal asesiad gofalwr a'r person sy'n derbyn gofal ar y cyd.

Mewn perthynas â'r asesiad o anghenion gofalwyr, nid oes rhaid i ofalwyr 'wneud cais' am asesiad bellach; mae'n rhaid cynnig hwn a chynnwys p'un a yw'r gofalwr yn gallu neu'n fodlon parhau yn eu rôl gofalu. Dylai'r asesiad hefyd gytuno ar y canlyniadau mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni mewn bywyd o ddydd i ddydd, p'un a yw'r gofalwr yn gweithio neu'n dymuno (a/neu) gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu hamdden.

Bellach, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth i ofalwyr ac mae'n rhaid iddo hefyd ystyried p'un a fyddai'r gofalwr yn elwa o wasanaeth ataliol neu wybodaeth, cyngor a chymorth. Pan asesir fod gan ofalwr anghenion cymwys, rhaid i'r cyngor roi cynllun cymorth ar waith sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni.

¹ <https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/gofalwyr-ar-ddeddf>

Beth wnaethom ni

Mynychodd Rheolwyr Ardal AGGCC fforymau a digwyddiadau a drefnwyd yn lleol i gefnogi gofalwyr a chynnal cyfweiliadau ffôn gyda gofalwyr fel y gallem glywed am eu profiad. Edrychom ar strategaethau gofalwyr a chyfweld swyddogion allweddol ac Aelodau'r Cyngor oedd yn hyrwyddwyr i ofalwyr, a hefyd fe wnaethom gyfarfod â phartneriaid allweddol ac ystyried dogfennau ganddynt gan gynnwys darparwyr gwasanaethau sy'n cefnogi gofalwyr, arweinwyr y bwrdd iechyd ar ofalwyr a phennaeth cydweithio rhanbarthol ar gyfer gofalwyr.

Roedd tua 400 o ofalwyr yn rhan o'r gwaith hwn, ac roedd hyn yn cynnwys gofalwyr ifanc, gofalwyr sy'n rhieni a gofalwyr i oedolion ag anghenion gofal cymdeithasol.

Yn ogystal â hyn, bu i ni gwrdd â Gofalwyr Cymru a thrafod y canfyddiadau oedd yn dod i'r amlwg o'u gwaith ar 'Olrhain y Ddeddf' ac adborth ac roedden nhw wedi'i dderbyn gan ofalwyr a sefydliadau gofalwyr.²

Cytunwyd ar bedwar prif lwybr ymholi oedd yn gysylltiedig â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol a'r safonau ansawdd ar gyfer awdurdodau lleol. Y canlyniadau y bu i AGGCC ganolbwyntio arny'n nhw oedd:

- Bod gofalwyr yn derbyn y gefnogaeth maen nhw ei angen .
- Bod gofalwyr yn gwybod beth yw eu hawliau ac yn deall y cymorth sydd ar gael iddynt .
- Bod gofalwyr yn bartneriaid cyfartal ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi am y gofal a roddant.
- Bod y weledigaeth ar gyfer cefnogaeth i ofalwyr yn cydnabod eu cyfraniad economaidd a'i bod yn glir ynghylch y canlyniadau a fwriedir.

² www.carersuk.org/wales/news-campaigns/track-the-act/track-the-act-survey-findings

Ein canfyddiadau

Canlyniad: Bod gofalwyr yn derbyn y gefnogaeth maen nhw ei angen.

Y cwestiwn a ofynnwyd: Pa mor dda mae'r awdurdod yn deall anghenion gofalwyr?

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol strategaethau ar gyfer gofalwyr ar waith ond nid yw'r rhain wedi cael eu hadolygu i adlewyrchu newidiadau o dan y SSWBA. Yn fwy diweddar mae rhai awdurdodau lleol wedi datblygu strategaeth gofalwyr newydd mewn ymateb i SSWBA yn seiliedig ar yr egwyddor o 'gyd-gynhyrchu' a chydabod yr angen am newid sylweddol i feddwl am sut y gall adnoddau mewn cymunedau gael eu datblygu'n well; mae strategaethau gofalwyr o'r fath yn mabwysiadu dull partneriaeth gref gyda gofalwyr a'r sector gwirfoddol. Mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a fydd cynhyrchu strategaeth yn arwain at ganlyniadau gwell i ofalwyr ond maen nhw'n rhoi trosolwg o'r cyfeiriad teithio a fwriedir.

Dros y 18 mis diwethaf, bu cryn dipyn o weithgarwch o ran casglu a dadansoddi data ar sail ranbarthol ar draws Cymru i gefnogi datblygu Asesiadau Anghenion Poblogaeth sy'n cynnwys pennod ar ofalwyr. Mae gofalwyr wedi cyfrannu at y gwaith hwn mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys drwy eu cynrychiolaeth ar Baneli Dinasyddion rhanbarthol a Byrddau Partneriaeth rhanbarthol. Fodd bynnag, dywedodd gofalwyr wrthym fod dal angen i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wneud mwy i wrando, a gweithredu, ar leisiau a safbwyntiau gofalwyr.

Datblygwyd amrywiaeth eang o wasanaethau lleol i gefnogi gofalwyr ar draws Cymru, gan gynnwys rhai mentrau arloesol. Daeth y rhain i'r amlwg dros nifer o flynyddoedd yn ystod cyfnod y Strategaeth Gofalwyr blaenorol ac fel ymateb i'r angen a nodwyd yn lleol. Y canlyniad yw clytwaith o wasanaethau, rhai sydd wedi cael eu comisiynu'n effeithiol ac yn aml yn cynnwys monitro trefniadau cymhleth am symiau bach o arian, sydd i raddau helaeth o ganlyniad i orddibyniaeth ar arian grant tymor byr. O bosibl o ganlyniad i ariannu yn y modd hwn, mae llawer o wasanaethau sy'n cefnogi gofalwyr yn parhau i fodoli gydag ansicrwydd contractau tymor byr. Roedd ychydig o adroddiadau blynyddol cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn 2015/16 yn tynnu sylw at yr angen i adolygu eu cymorth i ofalwyr, a'r asesiadau a'r cymorth sydd ar gael iddynt yng ngoleuni'r SSWBA.

Nid oes tystiolaeth glir i awgrymu pa fodel cymorth yw'r mwyaf effeithiol ac o gofio'r gwahaniaeth mewn gwasanaethau a daearyddiaeth, nid yw'n glir y byddai cymhariaeth uniongyrchol yn bosibl nac yn ddymunol hyd yn oed. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau lleol yn comisiynu sefydliadau trydydd sector i gynnal asesiadau anghenion gofalwyr a darparu cymorth; mae eraill yn cyflogi swyddogion gofalwyr uniongyrchol. Lle mae awdurdodau lleol yn ymgynghori, ymgysylltu a chomisiynu'n uniongyrchol gyda sefydliadau o'r trydydd sector i ddarparu cymorth i ofalwyr, mae'r cydgysylltu digwyddiadau, y wybodaeth a'r broses o gyflawni diweddariadau'n cynnwys mwy o ffocws ac wedi'u

targeddu, ac mae tystiolaeth fod canlyniadau ar gyfer gofalwyr yn well yn glir. Mae cymorth ychwanegol drwy ddatblygu gwefan ac adnoddau ar-lein ar gyfer darparwyr statudol a darparwyr o'r trydydd sector, ynghyd â gofalwyr yn hollbwysig.

Fodd bynnag, yn gyffredinol mae tystiolaeth o leihad o ran ffocws strategol a gweithredu mewn perthynas â chefnogi gofalwyr oedd eisoes yn cael ei ysgogi gan ddisgwyliad y Strategaeth Gofalwyr. Mae barn na fu i'r broses o symud y prif gyfrifoldeb o'r awdurdodau lleol i'r Byrddau Iechyd Lleol (LHB) o dan y Mesur Gofalwyr blaenorol gael yr effaith a fwriadwyd. Yn aml, er bod prif swyddogion gofalwyr sydd wedi'u cyflogi gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol wedi ymrwymo'n unigol i wella cymorth i ofalwyr, nid ydynt wedi bod yn ddigon uchel i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau a chyflawni camau gweithredu strategol. Hefyd, mae risg amlwg nad yw cefnogi gofalwyr yn 'fusnes pawb' ar draws timau iechyd a gofal cymdeithasol ac ar draws y cyngor a'r GIG.

Canlyniad: Bod gofalwyr yn gwybod beth yw eu hawliau ac yn deall y cymorth sydd ar gael iddynt.

Y cwestiwn a ofynnwyd: Pa mor effeithiol yw'r Cyngor wrth ddarparu cyngor gwybodaeth, cymorth ac asesiad a chefnogi cynllunio i ofalwyr?

Mae lefel dda o wybodaeth ar gael ar draws Cymru drwy awdurdodau lleol a'r trydydd sector gyda chysylltiadau da rhwng grwpiau gofalwyr a chynghreiriau mewn awdurdodau lleol ac yn y trydydd sector gyda nifer yn cynhyrchu gwybodaeth a chylchlythyrau rheolaidd. Mae hyn yn amrywio, ac mewn rhai ardaloedd mae cyhoeddiadau gofalwyr traddodiadol yn llai poblogaidd, gyda gofalwyr bellach yn cael gafael ar wybodaeth drwy amrywiaeth o ffynonellau cyfryngau cymdeithasol. Yn anochel bydd ehangu cynnwys cyfryngau cymdeithasol a mynediad yn datblygu i fod y dull a ffefrir o ran cymorth a chyngor, a bydd angen i awdurdodau lleol gydnabod a chefnogi'r newid hwn. Mae'r system wybodaeth DEWIS ar y we nawr wedi'i chyflwyno mewn rhai siroedd a nododd gofalwyr bod mynediad yn hawdd i'r wybodaeth hon ar y dudalen we. Lle mae partneriaethau rhanbarthol yn gryf yna mae tystiolaeth o fwy o gydlynw'n glir.

Mae'n peri pryder penodol bod gofalwyr yn nodi eu bod weithiau yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth, yn enwedig ar adegau o straen. Mae hefyd yn bwysig nodi bod rhai gofalwyr wedi nodi nad oes ganddynt unrhyw fynediad i'r rhyngwyd a'u bod yn teimlo'n ddi-rym oherwydd y ffocws cynyddol ar wybodaeth ar y we. Mae hefyd angen gwelliannau i sicrhau bod gwybodaeth i ofalwyr ar gael mewn amrywiaeth ehangach o fformatau gan gynnwys tudalennau gwe ar gyfer y rhai â nam ar eu golwg, yn enwedig drwy dudalennu gwe'r awdurdodau lleol.

Roedd cyfarfodydd grŵp gofalwyr yn cael eu gwerthfawrogi a theimlir eu bod yn ffynhonnell dda o wybodaeth a chymorth gan ddarparu cwmni da, yn lle i gwrdd â phobl a rhannu pryderon a phrofiadau cadarnhaol. Mae rhai siroedd yn cynnal diwrnodau gwybodaeth i ofalwyr yn rheolaidd a dywedodd gofalwyr wrthym am yr ymateb dynol cynnes maen nhw'n ei gael ynghyd â thafenni gwybodaeth a manylion cyswllt grwpiau cefnogi a gwasanaethau ar gael i ofalwyr.

Mae gofalwyr yn sicr eu bod eisiau i bobl glywed eu straeon a'u bod am gynnal sgysiau ystyrlon gyda gweithwyr cymdeithasol o ran 'beth sy'n bwysig', a bod y rhain yn cael ymateb. Mae hyn yn parhau i fod yn anghyson ledled Cymru ac awgrymodd gofalwyr bod angen symleiddio'r ffynonellau a'r pwyntiau mynediad niferus at wybodaeth a chymorth o wahanol fathau a lefelau a ddarperir gan wahanol sectorau ac asiantaethau. Mae angen i awdurdodau lleol wella ymwybyddiaeth gweithwyr cymdeithasol o ehangder y wybodaeth a'r gwasanaethau cymorth i ofalwyr.

Er bod tystiolaeth bod rhai awdurdodau lleol wedi datblygu mewn ymateb i SSWBA o ran cefnogi gofalwyr, mae gan eraill gryn ffordd i fynd o hyd. Dangosodd trafodaeth gyda rhai aelodau o staff nad yw'r angen am ddull newydd o sgwrsio am 'beth sy'n bwysig' yn cael ei gyflawni ar gyfer gofalwyr ac mae angen gwaith pellach i sefydlu diwylliant newydd i fodloni gofynion y SSWBA.

Mae mynediad i asesiad o anghenion gofalwyr yn amrywio -cadarnhaodd rhai gofalwyr eu bod wedi cael asesiad a'u bod yn gwybod gyda phwy i gysylltu am gymorth; dywedodd eraill bod y meddyg teulu yn cefnogi eu mynediad i asesiad o anghenion gofalwyr tra bod gofalwyr eraill yn dweud fod hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r cymorth a ddarperir i'r person maen nhw'n gofalu amdanynt. Nododd gofalwyr fod dyblygu'n digwydd a bod rhaid iddynt ddweud eu stori nifer o weithiau ac mewn rhai awdurdodau lleol mai'r 'pwynt unigol o fynediad' yw anfon gofalwyr am asesiad heb gychwyn asesiad drwy sgysiau 'beth sy'n bwysig'. Siaradwyd hefyd â gofalwyr nad oedd mor glir p'un a oeddent wedi cael asesiad o anghenion gofalwyr nac yn deall perthnasedd y sgysiau maen nhw wedi'u cael.

Cymysg yw'r farn o ran ansawdd ac addasrwydd at ddiben yr asesiad o anghenion gofalwyr. Cadarnhaodd rhai gofalwyr bod pobl yn gwrandao ar eu barn yn gyffredinol lle mae asesiadau wedi'u cynnig a'u cynnal. Dywedodd gofalwyr bod diffyg ymgysylltu wyneb yn wyneb a bod hynny'n aml yn arwain at ddiffyg cadarnhad ysgrifenedig o'r hyn oedd wedi cael ei drafod dros y ffôn neu o'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. Mae hefyd yn bryder mewn rhai siroedd fod gofalwyr yn mynegi pryder am fod ar restr aros am asesiad o anghenion gofalwyr. Nodwyd materion penodol ynghylch pwy sy'n gwneud yr asesiadau ar gyfer gofalwyr plant anabl sydd wedi achosi straen sylweddol ar gyfer rhieni.

Cawsom adborth cadarnhaol gan ofalwyr a phartneriaid allweddol lle'r oedd strwythurau clir i gefnogi gofalwyr yn bodoli ynghyd â dealltwriaeth glir o ddefnyddio sgysiau 'beth sy'n bwysig' yn seiliedig ar gysylltiadau ehangach ar draws y cyngor a'i bartneriaid. Nodwyd bod cydlynwyr lles cymunedol newydd yn gam cadarnhaol i rai awdurdodau lleol. Gall presenoldeb hyrwyddwr gofalwyr mewn timau gwaith cymdeithasol, addysg ac iechyd fod yn effeithiol o ran codi ymwybyddiaeth, ond mae hyn yn anghyson. Mae'r angen i awdurdodau lleol a gwasanaethau gofalwyr a gomisiynwyd ddangos hyblygrwydd ac arloesi wrth ymateb i'r hyn sydd o bwys i ofalwyr yn hollbwysig.

Canlyniad: Bod gofalwyr yn bartneriaid cyfartal ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi am y gofal a roddant.

Y cwestiwn a ofynnwyd: Beth mae gofalwyr yn ei ddweud ynghylch: pa mor dda mae eu hanghenion yn cael eu diwallu?

Roedd darlun cymysg ledled Cymru o ran gofalwyr yn dweud eu bod yn teimlo fel partneriaid cyfartal. Dywedodd rhai gofalwyr eu bod yn ymgysylltu ac yn cael eu clywed yn weithredol fel partner yng ngofal person sy'n derbyn gofal tra bod eraill yn dweud fod asesiadau'n ymarfer ticio blychau yn unig. Dywedodd rhai gofalwyr wrthym eu bod yn cymryd rhan yn weithredol mewn grwpiau lleol a dysgu gan ofalwyr eraill am sut i gael mynediad at wybodaeth a chymorth, mae eraill yn teimlo fod pobl a grwpiau yn ymgynghori gyda nhw fel dewis olaf. Nododd rhai eu bod yn teimlo nad oedd unrhyw beth wedi newid yn dilyn eu hasesiad ac felly herio ei werth.

Fel y nodwyd eisoes, mae'r cymorth sydd ar gael ar gyfer gofalwyr yn amrywiol iawn. Dywedodd yr awdurdodau lleol sy'n perfformio orau wrthym am amrywiaeth eang o ddarpariaeth hyblyg a chreadigol gan gynnwys cyrsiau, cwnsela a thaliadau uniongyrchol i alluogi gofalwyr i wneud eu trefniadau eu hunain. Roedd llawer o awdurdodau lleol wedi datblygu polisiau i gefnogi gofalwyr oedd yn cael eu cyflogi gan y cyngor ac roedd rhai siroedd wedi datblygu cysylltiadau gyda chyflogwyr eraill, yn bennaf drwy sefydliadau gofalwyr yn y trydydd sector. Roedd ychydig o siroedd hefyd wedi datblygu partneriaethau gyda chanolfannau gwaith i gefnogi gofalwyr i mewn i gyflogaeth.

Mae nifer o siroedd hefyd wedi datblygu mentrau llwyddiannus gyda byrddau iechyd a phractisau meddygon teulu yn arbennig sydd yn aml yn brif bwynt cyswllt i ofalwyr; mae eraill wedi ymestyn hyn i wardiau ysbyty ac roedd y maes datblygu hwn yn aml wedi'i lywio gan gyfranogiad y GIG yn dilyn cyflwyno'r Mesur Gofalwyr.

Fodd bynnag, dywedodd gofalwyr eraill, lle mae cymorth yn cael ei ddarparu, ei fod yn gyfyngedig o ran darpariaeth cymhorthion ac addasiadau neu seibiannau byr. Yn yr awdurdodau lleol hyn roedd yn anodd dangos beth oedd yn cael ei ddarparu i'r gofalwr o ran eu cymorth eu hunain yn hytrach na chymorth i'r person maen nhw'n gofalu amdanynt.

Yn gyffredinol mae gofalwyr ifanc yn derbyn cymorth da, fodd bynnag, mae nifer gynyddol gydag anghenion emosiynol cymhleth ac mae diffyg gwasanaethau iechyd meddwl i blant yn golygu fod gweithwyr sy'n cefnogi gofalwyr ifanc yn delio gyda rhai materion heriol a chymhleth. Mae gan rhai awdurdodau lleol gynlluniau diogelwch ar waith ar gyfer gofalwyr ifanc a gallant gysylltu gyda'r rhain am gymorth os oes angen. Mae'r broblem o ganfod gofalwyr ifanc yn parhau i fod yn bryder ac mae gan rai gwasanaethau gofalwyr ifanc restr aros ar gyfer cymorth lle mae'n aneglur sut mae'r gofalwyr ifanc yna cael cefnogaeth wrth aros i gael mynediad at y gwasanaeth. Yn amlwg, mae rôl addysg a gwasanaethau ysgolion yn hollbwysig, ac unwaith eto mae hyn yn gymysg ar draws Cymru. Unwaith y bydd gofalwyr ifanc yn cael eu nodi mae'r cymorth a ddarperir yn ymddangos yn gryf.

Mae datblygu cynlluniau marchnata a hyrwyddo, gwefannau, ymgysylltu ag ysgolion a'r gwasanaeth ieuenctid, cyfrifon ar Twitter a Facebook ac ymgysylltu â chanolfannau gwaith i gyd yn dystiolaeth o'r gwaith datblygu parhaus.

Dywedodd llawer o ofalwyr am y fantais o gael mynediad at wasanaeth seibiant byr. Mae gwahaniaethau o ran argaeledd gwasanaethau o'r fath rhwng awdurdodau lleol a rhwng grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth. Roedd sylwadau yn cyfeirio at yr angen i gynllunio ymlaen llaw yn sylweddol er mwyn galluogi gofalwyr i ddefnyddio gofal seibiant byr sy'n golygu mai ychydig o help sydd ar gael pan fydd angen seibiant byr ar frys. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi lleihau gwasanaethau gofal dydd a gwasanaethau seibiant byr oherwydd toriadau ariannol ond nid yw'r AGGCC wedi gallu profi p'un a yw hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar ofalwyr.

Dywedodd gofalwyr y byddent yn croesawu mwy o wybodaeth am Daliadau Uniongyrchol yn enwedig ar y gallu i ddefnyddio taliadau o'r fath mewn ffordd fwy hyblyg. Mae rhaid awdurdodau lleol yn cael problemau wrth fynd i'r afael â'r mater hwn gyda chreadigrwydd a gwrando ar yr hyn sy'n bwysig i ofalwyr.

Mae'n ymddangos fod grwpiau cefnogi ar gyfer pobl hŷn ar gael i bawb ond lle mae angen grwpiau cymorth arbenigol fel iechyd meddwl ac anableddau dysgu nid yw hyn bob amser ar gael ym mhob sir.

Mae ymgysylltiad AGGCC wedi nodi dau fath o ofalwyr lle mae'r diffyg mwyaf o ran cymorth. Y rhain oedd gofalwyr sy'n rhieni i blant gydag anghenion cymhleth a gofalwyr i oedolion gydag anghenion iechyd meddwl.

Dywedodd rhieni sy'n ofalwyr i blant ag anghenion cymhleth, awtistiaeth neu ymddygiad heriol fod cymorth yn gyfyngedig. Gwelwyd diagnosis weithiau fel porth i wasanaethau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, ond dywedodd rhai rhieni eu bod yn siomedig nad oedd cynnig am gefnogaeth neu wasanaeth yn dilyn diagnosis. Nid oedd plant oedd yn derbyn gwasanaethau CAMHS yn gymwys am yr un ystod o wasanaethau â phlant anabl, a nodwyd hyn fel mater sy'n effeithio ar lefel y cymorth ar gyfer y teulu cyfan.

Nododd gofalwyr i bobl gydag anghenion iechyd meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau mai anaml y byddai asesiad gofalwyr yn cael ei ddiweddarau neu ei adolygu, hyd yn oed pan fyddant yn cael un, a bod diffyg cymorth arbenigol ar gael oedd yn hygyrch yn lleol. Dywedodd rhai gofalwyr pan oeddent yng nghanol 'anhrefn argyfwng' mai ychydig o gefnogaeth oedd a bod rhaid iddynt ymdopi ar eu pen eu hunain. Credwyd bod mynediad at gymorth yn haws lle'r oedd cydgysylltydd gofal wedi'i neilltuo'n barod i berson ag anghenion iechyd meddwl. Roedd gofalwyr hefyd yn disgrifio cyfnodau o amser pan roeddent yn pryderu am ddiogelwch a lles y rhai maen nhw'n gofalu amdanynt ac am yr anawsterau o ran cael gafaél ar gymorth meddygol ac nad oeddent yn cael eu hysbysu am faterion oherwydd dyletswyddau cyfrinachedd. Dywedwyd y byddai'r person sy'n derbyn gofal yn dewis peidio gwneud defnydd o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt ac roedd hyn yn cael effaith enfawr ar y pwysau ar ofalwyr, roedden nhw'n teimlo nad oedd y straen mae hyn yn ei roi arnynt yn cael ei gydnabod. Gwelwyd bod llawer o'r gofalwyr hyn mewn cyflwr pryderus ac agored i niwed.

Canlyniad: Bod y weledigaeth ar gyfer cefnogaeth i ofalwyr yn cydnabod eu cyfraniad economaidd a'i bod yn glir ynghylch y canlyniad a fwriedir.

Y cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau mae arweinwyr y cyngor wedi darparu gweledigaeth glir ar gyfer cefnogi gofalwyr ac wedi cynnwys ei bartneriaid yn hyn gan gynnwys y gofalwyr eu hunain?

Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau ansawdd ac archwilio gwaith ei wasanaethau a gomisiynir yn fwy effeithiol, gan ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau i ofalwyr, ac ar leisiau gofalwyr. Roedd yn amlwg nad oedd gan awdurdodau lleol drefniadau monitro cadarn ar waith i bennu ansawdd y gwasanaethau y maen nhw'n eu comisiynu i ddarparu gwybodaeth a chymorth i ofalwyr. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi symud i ganolbwyntio ar ganlyniadau i ofalwyr yn hytrach nag allbynnau yn eu trefniadau monitro, mae eraill yn parhau i ddefnyddio dull ticio blychau i fonitro contractau sy'n canolbwyntio ar bolisiau a gweithdrefnau, a mwy o ffocws ar gyflawni canlyniadau i bobl. Cefnogir gwaith gyda gofalwyr trwy amrywiaeth o fodelau gan un swyddog gofalwyr, un swyddog monitro cysylltiadau neu dimau llai o swyddogion gofalwyr a chymorth busnes wedi'u halinio. Mae rhai awdurdodau lleol yn archwilio'r broses o gynnal ac adolygu asesiadau gofalwyr, mewn awdurdodau lleol eraill, tynnwyd sylw at ansawdd asesiadau, prydlondeb annigonol yr ymateb ac adolygu parhaus. Fel y cyfryw mae anghysondeb o ran goruchwyllo, monitro canlyniadau a sicrhau ansawdd. Mae hwn yn faes pwysig i'w ddatblygu.

Mae gallu a chapasiti'r gwasanaethau a gomisiynir i gyflawni agenda eang gofalwyr yn her ac nid yw'n un a gydnabyddir gan gomisiynwyr bob amser. Mae p'un a gall y gwasanaethau hyn aros yn sefydlog ac yn gynaliadwy o fewn y trefniadau ariannu grant presennol, a lle mae cytundebau lefel gwasanaeth hanesyddol yn cyfyngu ar arloesi yn fater allweddol. Roedd pwysigrwydd tyfu a chydlynu'r sector hwn i sicrhau llwyfan cadarn a chynaliadwy i ddarparu gwasanaethau yn cael ei amlygu drwy waith AGGCC yn ystod y flwyddyn.

Gan fod gymaint o'r cymorth ar gyfer gofalwyr yn cael ei ddarparu drwy gomisiynu sefydliadau gwirfoddol mae wedi arwain at ddarlun cymysg ynghylch ymgysylltiad awdurdodau lleol â gofalwyr trwy ddigwyddiadau, fforymau a diwrnodau gwybodaeth a bu i ofalwyr wneud sylwadau am y diffyg hwn. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o gefnogaeth wleidyddol gref gyda nifer o awdurdodau lleol yn dynodi aelod etholedig fel hyrwyddwr gofalwyr ac a oedd yn rhagweithiol yn y rôl hon. Eto mae angen datblygu cydnabyddiaeth gorfforaethol ehangach eu rôl hanfodol wrth yrru, cydlynu a darparu cymorth ymhellach. Mae angen i'r pwyslais ar ddiogelu'n 'fusnes i bawb' nawr angen canolbwyntio ar gefnogi gofalwyr 'yn fusnes i bawb'.

Casgliad a'r camau nesaf

Mae sylfaen dystiolaeth gref sy'n tynnu sylw at y cyfraniad economaidd hanfodol a wneir gan ofalwyr a phwysigrwydd nodi a chefnogi gofalwyr yn y rôl hon yn bodoli.

Bu i ymgysylltiad blwyddyn o hyd AGGCC gyda gofalwyr ganfod rhai arferion cryf iawn o ran cefnogi gofalwyr, ond nid yw hyn yn gyson ledled Cymru.

Yn yr ymdrech i drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r SSWBA, roedd cymorth ar gyfer gofalwyr wedi llithro i lawr yr agenda ac mae angen i awdurdodau lleol, gyda'u partneriaid, sicrhau bod hawl gofalwyr i gael asesiad a chefnogaeth dda yn cael ei ddeall a'i roi ar waith gan staff rheng flaen.

Roedd pwysigrwydd hanfodol mynediad amserol at wybodaeth, cyngor a chymorth yn thema allweddol a ailadroddwyd gan ofalwyr ac mae angen i awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i sicrhau darpariaeth hygyrch ac effeithiol.

Mae'n bwysig hefyd bod strategaethau gofalwyr yn cael eu diweddarau a bod cynlluniau comisiynu cydlynol ar waith sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau a nodir yn y SSWBA. Mae angen hyn yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu a beth sy'n bwysig i ofalwyr a gall ddangos sut y gellir cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer gofalwyr.

Bydd AGGCC yn parhau i ymgysylltu â gofalwyr fel rhan graidd o'i raglen arolygu ac adolygu perfformiad gydag awdurdodau lleol a bydd yn parhau'r ddeialog gyda Gofalwyr Cymru i lywio'r gwaith hwn.